Cynllun Gweithredu Strategaeth Golwg

Cymru: Cyflawniadau allweddol yn 2014-15 a blaenoriaethau ar gyfer 2015-16

UK Vision Strategy

Cydnabyddiaethau

Gyda diolch i holl aelodau a phartneriaid Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru; ar gyfer cyflawniadau 2014-15 ac ar gyfer nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 2015-16:

Access Design Solutions UK Ltd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BridgeVIS
Cymdeithas Orthoptig Prydain ac Iwerddon
Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru
Sefydliad y Deillion Caerdydd
DeafBlind Cymru
Guide Dogs Cymru
Optometreg Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr
RNIB Cymru
Sight Cymru
Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru
Cyngor Cymru i'r Deillion
Llywodraeth Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Fforwm Swyddogion Adsefydlu Cymru

Nodyn ar strwythur y ddogfen hon

Mae Cynllun Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru 2014-2018 yn nodi sut y caiff tri chanlyniad Strategaeth Golwg y DU eu cyflawni yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys amcanion Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â nodau Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi'r llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn 2014-15 i gyflawni'r nodau a'r amcanion a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru 2014-18, yn ogystal â'r camau â blaenoriaeth a gaiff eu cymryd yn 2015-16.

Cynnwys

Rhagair 4

Ein tri maes canlyniadau 5

Canlyniad un 6

- Cyflawniadau allweddol ar gyfer 2014/15 6
- Camau allweddol â blaenoriaeth ar gyfer 2015-16 9

Canlyniad dau 14

- Cyflawniadau allweddol ar gyfer 2014/15 14
- Camau allweddol â blaenoriaeth ar gyfer 2015-16 17

Canlyniad tri 23

- Cyflawniadau allweddol ar gyfer 2014/15 23
- Camau allweddol â blaenoriaeth ar gyfer 2015/16 26

Rhestr talfyriadau 31

Rhagair

Mae 106,000 o bobl yng Nghymru sydd wedi/sy'n colli eu golwg a disgwylir i'r nifer hwnnw ddyblu dros y 25 mlynedd nesaf [1].

Er bod llawer o gynnydd wedi'i wneud yng Nghymru a ledled y DU, mae galw cynyddol arnom i gydweithio er mwyn lleihau lefel colled golwg, gwella iechyd llygaid a rhoi cymorth amserol i sicrhau bod ein cymdeithas yn cynnwys pobl ddall a phobl â golwg rhannol yn llawn.

Lansiwyd menter Strategaeth Golwg y DU yn 2008 mewn ymateb i gynnig a basiwyd gan Gynulliad Iechyd y Byd yn 2003 y dylid datblygu a gweithredu cynlluniau i fynd i'r afael â cholled golwg (a elwir bellach yn gynlluniau VISION 2020). Aeth pob un o'r pedair gwlad yn y DU ati i ddatblygu eu cynlluniau gweithredu eu hunain ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers iddynt gael eu lansio yn 2010.

Mae Cynllun Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru 2014-15 yn cynnig llwyfan i ni adeiladu ar y cynnydd ardderchog a gyflawnwyd eisoes. Mae hefyd yn amlinellu sut y gallwn ddatblygu partneriaethau ymhellach er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio a chydweithio er mwyn sicrhau bod ein cymdeithas yn fwy cynhwysol ac yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith arloesol a wnaed gan bartneriaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys llwyddiannau perthnasol a thargedau o Gynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru, ac yn nodi'r amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer y bartneriaeth ar gyfer 2015/16. Mae ein hamcanion yn uchelgeisiol a gwyddom y bydd heriau i'w goresgyn ond fel y dywedodd Helen Keller unwaith "Ychydig iawn y gallwn ei wneud ar ein pennau ein hunain; gallwn wneud cymaint yn fwy gyda'n gilydd."

Ar ran Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru, hoffwn ddiolch i'n partneriaid a'n cefnogwyr am eu cyfraniad a'u gwaith caled.

Ceri Jackson
Cadeirydd, Strategaeth Golwg y DU

[1] Access Economics 2009, Future Sight Loss 1: The economic impact of partial sight and blindness in the UK adult population. RNIB a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2014.

Ein tri maes canlyniadau

Canlyniad un - mae pawb yng Nghymru yn gofalu am eu llygaid a'u golwg

O 2014-2018, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o iechyd llygaid, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o glefyd y llygaid yn ogystal ag ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol.
- sicrhau y caiff achosion o golli golwg eu nodi'n gynnar a'u hatal lle y bo'n bosibl.

Canlyniad dau - mae pawb sydd â chyflwr llygaid yn cael triniaeth amserol ac, os bydd unigolion yn colli eu golwg yn barhaol, mae gwasanaethau a chymorth cynnar a phriodol ar gael sy'n hygyrch i bawb

O 2014-2018, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- gwella'r modd y caiff gwasanaethau iechyd llygaid a gofal llygaid eu cydgysylltu a'u hintegreiddio, eu cwmpas a'u heffeithiolrwydd.
- sicrhau, pan fydd pobl yn colli eu golwg yn barhaol, y darperir cymorth emosiynol a gwasanaethau sefydlu neu adsefydlu mewn modd amserol, gan alluogi pobl i gadw neu adennill eu hannibyniaeth.

Canlyniad tri - cymdeithas y gall pobl sy'n colli eu golwg gyfranogi'n llawn ynddi

O 2014-2018, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- gwella agweddau, ymwybyddiaeth a chamau gweithredu ym maes addysg a chyflogaeth ac o fewn gwasanaethau eraill.
- sicrhau y gall plant a phobl ifanc sy'n colli eu golwg gymryd eu lle mewn cymdeithas.
- gwella cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb.

Canlyniad un

Mae pawb yng Nghymru yn gofalu am eu llygaid a'u golwg

O 2014-2018, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o iechyd llygaid, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o glefyd y llygaid yn ogystal ag ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol.
- sicrhau y caiff achosion o golli golwg eu nodi'n gynnar a'u hatal lle y bo'n bosibl.

Canlyniad un: cyflawniadau allweddol ar gyfer 2014/15

Ymgyrchoedd iechyd llygaid yng Nghymru

Partner Arweiniol: Llywodraeth Cymru

Nod: Sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth a gydnabyddir ym maes iechyd y cyhoedd, a ategir gan waith ymchwil a phrosesau casglu data cadarn. Dylai'r effaith ar iechyd llygaid a golwg ddod yn nodwedd integredig ar ymgyrchoedd mawr ym maes iechyd y cyhoedd ac addysg, fel y rhai sy'n mynd i'r afael ag ysmygu, deiet neu ordewdra.

Amcan: Chwilio am gyfleoedd i gysylltu materion iechyd llygaid gydag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd eraill fel diabetes, ysmygu a chwympo.

Cyflawniad allweddol: Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid bellach yn ei ail flwyddyn. Un o amcanion allweddol y cynllun yw cynnal cyfres o ymgyrchoedd cenedlaethol wythnos o hyd ar iechyd llygaid ar gyfer y cyhoedd a grwpiau sy'n wynebu risg. Roedd yr ymgyrch gyntaf, a lansiwyd yng nghanol mis Ebrill 2015, yn canolbwyntio ar ofal llygaid acíwt.

Roedd y neges ynghylch iechyd llygaid yn canolbwyntio ar annog pobl i ymweld â'u hoptometrydd achrededig yn hytrach na'u meddyg teulu, fferyllydd neu'r gwasanaethau brys pe bai ganddynt broblem llygaid acíwt. Cafodd yr ymgyrch hon ei harwain gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gydag RNIB Cymru, partneriaid gofal llygaid a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ledled Cymru yn cydweithio i gefnogi'r gwaith o ledaenu'r negeseuon allweddol hyn. Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau ac roedd y Gweinidog Iechyd a'r Prif Swyddog Meddygol yn bresennol yn rhai ohonynt.

Prosiect Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i sicrhau bod Iechyd Llygaid yn Flaenoriaeth Glinigol

Partneriaid Arweiniol: Strategaeth Golwg y DU a Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu

Nod: Cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o iechyd llygaid drwy ymgyrchoedd addysg traws sector parhaus sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio'n benodol ar iechyd llygaid. Dylai'r rhain bwysleisio rôl profion golwg rheolaidd o ran nodi'r angen i gywiro'r golwg, gan gynnwys sbectolau a lensys cyffwrdd, ac o ran nodi arwyddion cynnar clefyd a sicrhau y caiff unigolion eu hatgyfeirio'n briodol. Dylai sicrhau hefyd fod rhaglenni hyfforddi a datblygu ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac ymarferwyr addysg, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf o golli golwg.

Amcan: Gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Brenhinol, Strategaeth Golwg y DU a phartneriaid perthnasol eraill, fel rhan o ymrwymiad y Coleg Brenhinol i sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth glinigol, cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith meddygon teulu mewn perthynas ag atal achosion o golli golwg y gellir eu hosgoi a chefnogi pobl ddall ac â golwg rhannol.

Cyflawniad allweddol: Yn dilyn cynnig llwyddiannus gan dîm Strategaeth Golwg y DU, a gefnogwyd gan sefydliadau partner Strategaeth Golwg y DU, mae'r Coleg Brenhinol wedi dewis iechyd llygaid, gyda ffocws ar heneiddio a cholled golwg, fel un o'i bedair blaenoriaeth ledled y DU hyd at fis Mawrth 2016. Un elfen hanfodol o'r gwaith ar y flaenoriaeth glinigol yw sicrhau bod meddygon teulu yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i ganfod cyflyrau'r llygaid neu achosion o golli golwg yn effeithiol a naill ai trin pobl neu eu hatgyfeirio fel bod cleifion yn cael triniaeth a chymorth effeithiol ac amserol.

Mae Dr Waqaar Shah, Hyrwyddwr Clinigol Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu ar gyfer Iechyd Llygaid, yn gweithio gyda'r Coleg a thîm Strategaeth Golwg y DU i gyflawni'r flaenoriaeth hon drwy ddatblygu rhaglen waith i wella gwybodaeth meddygon teulu o ran nodi cyflyrau llygaid yn gynharach ymhlith pobl hŷn. Un o nodau eraill y rhaglen waith fydd gwella gwybodaeth meddygon teulu am y gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo cleifion sy'n colli eu golwg. Gwnaed cynnydd sylweddol yn 2014/15 gan gynnwys sefydlu grŵp rhanddeiliaid ar gyfer prosiect Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i sicrhau bod Iechyd Llygaid yn Flaenoriaeth Glinigol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect yng Nghymru.

Mae'r rhaglen blaenoriaeth glinigol wedi gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector iechyd llygaid a cholled golwg yn y DU a gyda chymorth hael Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington i baratoi
Sight loss in older people – the essential guide for general practice.

Anfonwyd y canllaw, sydd wedi'i achredu gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu, i bob practis meddyg teulu ledled y DU ym mis Hydref 2014. Anfonwyd arolwg dilynol at feddygon teulu a phractisau ym mis Rhagfyr 2014 yn gofyn am eu hadborth ar y canllaw. Roedd 78 y cant o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y canllaw wedi gwella eu gwybodaeth am achosion o golli golwg ymhlith pobl hŷn ac roedd 45 y cant yn bwriadu newid eu harferion o ganlyniad i'w ddarllen.

Mae'r canllaw yn nodi'r angen i ganfod cyflyrau yn gynnar ac atgyfeirio cleifion yn briodol a'r cyswllt rhwng colled golwg a chyflyrau iechyd eraill, ac yn awgrymu sut y gellir sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan bractisau yn fwy hygyrch i bobl hŷn sy'n colli eu golwg.

Mae'r prosiect hefyd wedi sefydlu Rhwydwaith Iechyd Llygaid o dros 400 o feddygon teulu a staff practisau sy'n gweithio i godi proffil iechyd llygaid mewn practisau a gwella ansawdd y gofal a roddir i gleifion sy'n colli eu golwg. Mae'r prosiect hefyd wedi llunio cyfres o ffeithlenni clinigol ar rai o'r cyflyrau sy'n effeithio ar y llygaid ac wedi cynnal gweithdai a chyflwyniadau ar iechyd llygaid mewn cynadleddau allweddol i feddygon teulu a gweithwyr gofal sylfaenol yn y DU.

I gael rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth glinigol iechyd llygaid, ewch i **rcgp.org.uk/eyehealth**

Deunyddiau gwybodaeth i'w dosbarthu drwy rwydweithiau Anabledd Dysgu Cymru

Partner Arweiniol: Guide Dogs Cymru

Nod: Sicrhau y caiff achosion posibl o golli golwg eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy ar gyfer pob unigolyn â chyflyrau iechyd ac anableddau lle mae cydberthynas hysbys â cholled golwg. Bod ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith ymarferwyr gofal iechyd, gan gynnwys ymarferwyr iechyd llygaid, o'r gydberthynas honno a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Amcan: Gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth er mwyn sicrhau y gallant gael gafael ar wasanaethau gofal llygaid yn haws.

Cyflawniad allweddol: Yn 2014 cyhoeddodd Guide Dogs Cymru erthygl a oedd yn annog pobl ag anabledd dysgu i gael profion llygaid rheolaidd. Nododd yr erthygl pam bod profion golwg rheolaidd yn bwysig iawn i'r grŵp hwn o bobl, sut i adnabod arwyddion y gallai rhywun fod yn colli ei olwg a pha gyflyrau iechyd y gall profion llygaid eu canfod.

Cyhoeddwyd y wybodaeth gan Anabledd Dysgu Cymru yn rhifyn Tachwedd 2014 o'i gylchgrawn chwarterol Llais, a ddosberthir yn eang i rwydweithiau anableddau dysgu ledled Cymru. Cafodd yr erthygl ei hatgynhyrchu hefyd yn rhifyn gaeaf 2015 o gylchgrawn Roundup Cyngor Cymru i'r Deillion.

Canlyniad un: camau allweddol â blaenoriaeth ar gyfer 2015-16

Sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth a gydnabyddir ym maes iechyd y cyhoedd, a ategir gan waith ymchwil a phrosesau casglu data cadarn

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod ystadegau a demograffeg iechyd llygaid yn cael eu cynnwys mewn Asesiadau o Anghenion y GIG ac adroddiadau Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar gyfer pob Bwrdd Iechyd.
- Chwilio am gyfleoedd i gysylltu materion iechyd llygaid gydag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd eraill fel diabetes, ysmygu a chwympo.
- Nodi cymorth Iechyd y Cyhoedd arbenigol er mwyn rhoi cyngor ar faterion gofal llygaid.
- Casglu, cofnodi a monitro gallu gwasanaethau gofal llygaid a'r galw amdanynt.

Caiff dealltwriaeth o iechyd llygaid ei meithrin drwy dystiolaeth, ymgyrchoedd, addysg a hyfforddiant

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaeth hybu iechyd llygaid ac addysg y cyhoedd ar gyfer y cyhoedd, grwpiau sy'n wynebu risg a phlant.
- Cynnal dwy ymgyrch iechyd llygaid genedlaethol sy'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar iechyd llygaid ac sy'n targedu'r cyhoedd a grwpiau sy'n wynebu risg. Er enghraifft, gofal llygaid acíwt, ac ymgyrch arall i'w chadarnhau.
- Gweithio gydag athrawon, nyrsys ysgol, optometryddion ac ymwelwyr iechyd er mwyn addysgu plant a rhieni am bwysigrwydd profion golwg.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o iechyd llygaid ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol a gofal cymunedol.
- Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau y caiff pwysigrwydd gofal llygaid o ansawdd da ei hyrwyddo mewn gofal preswyl.
- Gweithio gyda Chanolfan Addysg Optometreg Ôl-raddedig Cymru er mwyn rhoi hyfforddiant i feddygon teulu, fferyllwyr a nyrsys practis mewn gofal llygaid yng Nghymru.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Monitro a gwerthuso ymgyrch iechyd llygaid ar ofal llygaid acíwt ym mis Ebrill 2015.
- RNIB Cymru i weithio gydag o leiaf bedwar sefydliad partner newydd, a chyrraedd o leiaf 30,000 o bobl drwy gynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth blynyddol.
- RNIB Cymru i barhau i weithio mewn partneriaeth â grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol a gwlad-benodol er mwyn parhau i hyrwyddo prosiect Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu yng Nghymru i sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth glinigol.
- Parhau i gynnal cyfres o ddigwyddiadau lleol gydag orthoptyddion er mwyn hybu iechyd llygaid plant fel rhan o ymgyrchoedd ehangach i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, er enghraifft Diwrnod Orthoptig y Byd a'r Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid.

Sicrhau bod mwy o bobl yn cael profion golwg ac, i'r rhai sy'n gymwys, gwasanaethau Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru (EHEW) a Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopathi Diabetig Cymru (DRSSW)

Amcanion perthnasol yng Nghynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Datblygu a gweithredu strategaeth hybu iechyd llygaid ac addysg y cyhoedd ar gyfer y cyhoedd, grwpiau sy'n wynebu risg a phlant.
- Annog pob optometrydd i gael ei hachredu i ddarparu Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru.
- Darparu hyfforddiant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol a gofal cymunedol o gymhwysedd a llwybrau atgyfeirio ar gyfer Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru a Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopathi Diabetig Cymru.
- Archwilio nifer y bobl sy'n cael Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru yn ôl grwpiau risg uchel.
- Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid eraill er mwyn ymchwilio i ddarpariaeth gofal llygaid mewn lleoliadau gofal preswyl a sicrhau bod profion golwg rheolaidd yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gofal personol unigol i breswylwyr.
- Sicrhau bod pobl ar incymau isel yn gallu cael gafael ar dalebau optegol y GIG ar gyfer sbectolau a/neu lensys cyffwrdd.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod meddygon teulu yn ymwybodol o gymhwysedd a llwybrau atgyfeirio ar gyfer Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru drwy barhau i ledaenu gwybodaeth i bob practis meddyg teulu yng Nghymru drwy gylchlythyr Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu, y canllaw ar golli golwg i feddygon teulu a phrosiect llygaid Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth glinigol.

Sicrhau y caiff problemau posibl gyda'r golwg ymhlith plant a phobl ifanc eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Gweithio gydag athrawon, nyrsys ysgol, optometryddion ac ymwelwyr iechyd er mwyn addysgu plant a rhieni am bwysigrwydd profion golwg.
- Datblygu proses sicrhau ansawdd allanol genedlaethol ar gyfer gwasanaethau sgrinio'r golwg mewn ysgolion prif ffrwd gan gynnwys monitro nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chanlyniadau a safonau hyfforddiant i nyrsys a chynorthwywyr.
- Gweithio i wella ansawdd gwasanaethau sgrinio i blant - gan gynnwys adolygu hyfforddiant, cyfarpar a phrosesau monitro yng ngoleuni safonau cenedlaethol.
- Datblygu gwasanaeth i sicrhau y cynigir prawf golwg blynyddol yn yr ysgol i blant mewn ysgolion arbennig.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Ceisio cynnwys gwybodaeth am iechyd llygaid yng Nghofnod Iechyd Personol y Plentyn (y "llyfr coch") a roddir i rieni newydd.

Sicrhau y caiff achosion posibl o golli golwg eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy ar gyfer pob unigolyn â chyflyrau iechyd ac anableddau, a bod ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith ymarferwyr gofal iechyd

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Datblygu gwasanaeth i sicrhau y cynigir prawf golwg blynyddol i blant mewn ysgolion anghenion arbennig.
- Annog pob optometrydd sydd wedi'i achredu i ddarparu Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru.

- Darparu hyfforddiant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol a gofal cymunedol o gymhwysedd a llwybrau atgyfeirio ar gyfer Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru a Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopathi Diabetig Cymru.
- Archwilio nifer y bobl sy'n cael Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru yn ôl grwpiau risg uchel.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Olrhain cynnydd ac ystyried sut y caiff yr elfen iechyd llygaid ei darparu fel rhan o archwiliadau iechyd blynyddol i'r rhai ag anghenion ychwanegol.
- Gweithio gyda staff byrddau iechyd er mwyn rhoi llwybrau strôc ar waith sy'n sicrhau y gellir cael gafael ar wasanaethau sgrinio'r golwg mewn modd priodol.
- Llunio deunyddiau gwybodaeth ar gyfer Anabledd Dysgu Cymru i'w dosbarthu drwy ei rwydweithiau.
- Gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o fyddarddallineb ymhlith gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, a'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n fyddarddall; mynychu cyfarfodydd tîm gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth o fyddarddallineb.

Sicrhau y caiff achosion posibl o golli golwg eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy ar gyfer pob unigolyn o gefndir ethnig lle ceir cydberthynas hysbys â cholled golwg, a bod ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith ymarferwyr gofal iechyd, gan gynnwys ymarferwyr iechyd llygaid, o'r gydberthynas honno a'r gwasanaethau sydd ar gael

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Annog pob optometrydd sydd wedi'i achredu i ddarparu Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru.
- Darparu hyfforddiant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol a gofal cymunedol o gymhwysedd a llwybrau atgyfeirio ar gyfer Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru a Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopathi Diabetig Cymru.
- Archwilio nifer y bobl sy'n cael Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru yn ôl grwpiau risg uchel.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno canfyddiadau prosiect partneriaeth peilot ar gynyddu nifer y bobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael Archwiliadau Iechyd Llygaid yng

Nghymru i'r grŵp Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Llygaid a datblygu cynllun lledaenu.

Sicrhau buddsoddiad mewn gwaith ymchwil pellach ar ymyriadau ar gyfer cyflyrau na ellir eu trin ar hyn o bryd, gan greu sail dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau adsefydlu a chymorth effeithiol

- Gwneud gwaith ymchwil academaidd ar effeithiolrwydd gwasanaethau adsefydlu i bobl sy'n colli eu golwg.

Canlyniad dau

Mae pawb sydd â chyflwr llygad yn cael triniaeth amserol ac, os bydd unigolion yn colli eu golwg yn barhaol, mae gwasanaethau a chymorth cynnar a phriodol ar gael sy'n hygyrch i bawb

O 2014-2018, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- gwella'r modd y caiff gwasanaethau iechyd llygaid a gofal llygaid eu cydgysylltu a'u hintegreiddio, eu cwmpas a'u heffeithiolrwydd.
- sicrhau, pan fydd pobl yn colli eu golwg yn barhaol, y darperir cymorth emosiynol a gwasanaethau sefydlu neu adsefydlu mewn modd amserol, gan alluogi pobl i gadw neu adennill eu hannibyniaeth.

Canlyniad dau: cyflawniadau allweddol ar gyfer 2014/15

Prosiect adsefydlu

Partner Arweiniol: Sight Cymru

Nod: Sicrhau buddsoddiad mewn gwaith ymchwil pellach er mwyn lleihau nifer yr achosion o golli golwg drwy ddatblygu ymyriadau ar gyfer cyflyrau na ellir eu trin ar hyn o bryd a hefyd er mwyn creu sail dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau adsefydlu a chymorth effeithiol.

Amcan: Ystyried y potensial i wneud gwaith ymchwil academaidd ar effeithiolrwydd gwasanaethau adsefydlu i bobl sy'n colli eu golwg.

Cyflawniad allweddol: Nod yr astudiaeth yw ystyried effaith y gwasanaethau a ddarperir gan swyddog adsefydlu ar ansawdd bywyd unigolion sy'n colli eu golwg.

Mae'r prosiect hwn, a arweinir gan Ysgol Optometreg Prifysgol Caerdydd a Sight Cymru, yn cynnwys trigolion o Gaerdydd sydd wedi cael gwybod eu bod yn colli eu golwg. Mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gwblhau'r cyfweliadau sylfaenol erbyn diwedd mis Mai 2015 a dylai gyflawni nifer y cyfweliadau y cytunwyd arnynt. Mae'r prosiect wedi wynebu rhai anawsterau a ragwelwyd, fel pobl a oedd yn rhy fregus i gymryd rhan neu ofalwyr nad oeddent yn awyddus i'r rhai yr oeddent yn gofalu amdanynt fod yn rhan o'r gwaith ymchwil. Mae rhwystrau iaith a methiant i gysylltu â phobl wedi gwneud y prosiect yn anodd, ond mae llawer iawn o waith wedi'i wneud er mwyn sicrhau y gallai'r gwaith ymchwil gael ei gyflawni. Cafwyd diddordeb mewn cyflwyno'r prosiect yn genedlaethol, a allai gynnig gwybodaeth ddefnyddiol am y broses o ddarparu gwasanaethau adsefydlu ledled y DU ac effaith y gwasanaethau hynny.

Swyddogion Cyswllt Clinig y Llygaid (ECLO)

Partner Arweiniol: RNIB Cymru

Nod: Sicrhau bod cymorth emosiynol yn rhan integredig o wasanaethau gofal llygaid a cholled golwg, p'un a gaiff ei gynnig mewn clinigau llygaid, yn y gymuned, neu drwy unrhyw ffordd arall. Dylai gwasanaethau fel cwnsela wedi'i deilwra fod ar gael i bobl sy'n colli eu golwg a'r rhai sy'n eu cefnogi cyn gynted ag y nodir problem bosibl. Dylid cynnig cysylltiadau â chymorth gan gymheiriaid hefyd.

Amcan: Datblygu sail dystiolaeth fwy cadarn ar gyfer effaith gwasanaeth Swyddog Cyswllt Clinig y Llygaid a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y gwasanaeth.

Cyflawniad allweddol: Mae gwasanaeth Swyddog Cyswllt Clinig y Llygaid wedi parhau i fod yn llwyddiant mawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gydag astudiaeth yn dangos bod y buddsoddiad a wnaed yn y gwasanaeth wedi sicrhau buddiannau cymdeithasol sylweddol. Yn ôl yr astudiaeth hon, a gomisiynwyd gan RNIB Cymru, cafwyd elw o £10.57 i gyllidebau gofal cymdeithasol am bob £1 a fuddsoddwyd yng ngwasanaeth Swyddog Cyswllt Clinig y Llygaid.

Mae hyn yn amlwg yn dangos gwerth y gwasanaeth i'r unigolyn, y bwrdd iechyd lleol a chymdeithas ehangach. Mae tri bwrdd iechyd yng Nghymru yn ariannu gwasanaethau Swyddog Cyswllt Clinig y Llygaid bellach.

Mae RNIB Cymru hefyd yn ariannu gwasanaeth Swyddog Cyswllt Clinig y Llygaid peilot cymunedol ym Mhowys, wrth i'r bwrdd iechyd roi llawer o'i wasanaethau yn yr ardal wledig helaeth hon ar gontract allanol.

Gwasanaeth cyngor a gwybodaeth am les

Partner Arweiniol: RNIB Cymru

Nod: Sicrhau y gall pobl ddall a rhai â golwg rhannol hawlio'r holl fudd-daliadau lles y mae ganddynt yr hawl i'w cael.

Amcan: Rhoi cyngor a gwybodaeth i bobl ddall ac â golwg rhannol a'u helpu i gael gafael ar fudd-daliadau lles.

Cyflawniad allweddol: Bellach, gall pob person dall a phob person sydd â golwg rhannol yng Nghymru gael gafael ar gyngor, gwybodaeth a chymorth i gael gafael ar fudd-daliadau lles. Lansiwyd gwasanaeth newydd RNIB Cymru, a ariennir gan y Loteri, ar 12 Chwefror 2015 gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths AC, yng Nghymdeithas y Deillion Gogledd Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn ategu'r gwasanaeth presennol a ddarperir gan Sight Cymru, gan sicrhau y darperir gwasanaethau i bobl ddall ac â golwg rhannol ledled Cymru.

Mae Gwasanaeth Hawliau, Cyngor a Gwybodaeth RNIB Cymru wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl ddall, pobl â golwg rhannol, pobl fyddar, pobl sy'n drwm eu clyw a phobl fyddarddall yn eu hwynebu pan fyddant yn hawlio budd-daliadau. Bydd y prosiect, a gyflwynir ledled Cymru, yn helpu mwy na 5,000 o bobl sy'n colli eu golwg neu eu clyw i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael, gyda'r nod o sicrhau bron £12 miliwn mewn incwm sydd heb ei hawlio. Mae RNIB Cymru yn darparu'r gwasanaeth mewn partneriaeth ag Action on Hearing Loss Cymru, Sense Cymru, Deafblind Cymru, Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, Vision Support a Sefydliad y Deillion Caerdydd.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
rnib.org.uk/rights-advice-and-information-service

Gellir cael rhagor o wybodaeth am wasanaethau cymorth Sight Cymru yn:
sightcymru.org.uk/support-services.html

Datblygu porth ar-lein er mwyn darparu gwybodaeth a gwasanaeth atgyfeirio

Partner Arweiniol: Cyngor Cymru i'r Deillion

Nod: Sicrhau bod gwybodaeth ddibynadwy, hygyrch a pherthnasol am gyflyrau'r llygaid, gofal llygaid, gwasanaethau colled golwg, rhwydweithiau cymorth a hawliau cyfreithiol ar gael, y gellir cael gafael arni'n hawdd mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd, er mwyn galluogi pobl i ddeall eu hopsiynau, dewis gwasanaethau a gwneud penderfyniadau hyddysg. Yn achos plant, dylid ymestyn hyn i gynnwys rhieni a gwarcheidwaid a, phe bai hynny o fudd i'r unigolyn, dylid cynnwys y rhai sy'n ei gefnogi.

Amcan: Cyfeirio pobl sy'n colli eu golwg at yr asiantaethau perthnasol.

Cyflawniad allweddol: Mae Cyngor Cymru i'r Deillion wedi bod yn gweithio ar "Perspectif", porth ar gyfer cyfeirio pobl at ffynonellau gwybodaeth fel gwefannau sefydliadau er mwyn hyrwyddo gwaith y sector, gan sicrhau mai partneriaid sy'n gyfrifol am y wybodaeth a roddir. Er mwyn rhoi ystod lawn o ddewisiadau i bobl sy'n colli eu golwg, mae'r porth wedi'i gysylltu â chyfeiriadur Sightline RNIB ar gyfer y DU. Ymgynghorwyd ag aelodau o Fforwm Golwg Cymru (Next Steps gynt) er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn glir ac mor gyfredol â phosibl.

Cafodd y prototeip ei brofi gan y sector, rhoddwyd adborth er mwyn cywiro rhai cofnodion ar y porth a pharatowyd adroddiad wedi'i deilwra yn nodi gwasanaethau trydydd sector ledled Cymru. Bydd adroddiad ar wasanaethau statudol yn dilyn. Caiff y fersiwn gyhoeddus gychwynnol ei lansio ar ddiwedd mis Mai 2015 cyn i welliannau pellach gael eu gwneud.

Helpu pobl fyddarddall i ddefnyddio technoleg newydd

Partner Arweiniol: Deafblind Cymru

Nod: Sicrhau bod hyfforddiant i bobl fyddarddall, dall ac â golwg rhannol ar ddefnyddio technolegau newydd ar gael, a'i fod yn fforddiadwy ac yn barhaus.

Amcan: Helpu pobl fyddarddall i fynd ar-lein a defnyddio technoleg ddigidol.

Cyflawniad allweddol: Y garreg filltir yn y flwyddyn gyntaf oedd darparu cymorth cynhwysiant digidol un-i-un i 20 o aelodau Deafblind Cymru. Yn ystod y flwyddyn, mae mwy na 70 o sesiynau cymorth un-i-un wedi'u darparu.

Canlyniad dau: camau allweddol â blaenoriaeth ar gyfer 2015/16

Sicrhau y gellir cael gafael ar ofal a thriniaeth iechyd llygaid yn haws

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Gweithio i ddatblygu atgyfeiriadau electronig a chofnodion cleifion electronig ar gyfer gofal llygaid.
- Gweithio i gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir mewn lleoliadau gofal sylfaenol a gofal cymunedol, lle y bo'n glinigol briodol.
- Adolygu a datblygu Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru yn flynyddol a datblygu llwybr llygaid sych.
- Adolygu Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru a llwybrau Ffocws ar Offthalmoleg (FOO) gofal sylfaenol yng ngoleuni canfyddiadau archwiliad o atgyfeiriadau er mwyn datblygu rhestr y cytunwyd arni o atgyfeiriadau priodol ac amhriodol.
- Diwygio targedau ar gyfer offthalmoleg er mwyn cynnwys mesurau ar gyfer pob claf (newydd a dilynol) sy'n seiliedig ar anghenion clinigol a'r risg o golli golwg na ellir ei wrthdroi.
- Datblygu systemau i wella'r broses o gasglu data fel mater o drefn mewn perthynas â galw, gallu, gweithgarwch ac ôl-groniadau mewn Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty (HES).
- Archwilio atgyfeiriadau o ofal sylfaenol i ofal eilaidd.
- Casglu, cofnodi a monitro gallu gwasanaethau gofal llygaid a'r galw amdanynt.

- Sefydlu Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig (ODTC) ar gyfer glawcoma.
- Sicrhau bod proses dryloyw ar waith ar gyfer ystyried a chymhwyso canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) sy'n cynnwys offthalmolegwyr a chleifion.
- Sicrhau yr ymatebir i bob atgyfeiriad at ofal eilaidd.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Parhau i ystyried a datblygu'r potensial ar gyfer llwybrau atgyfeirio uniongyrchol o optometreg i ofal eilaidd.
- Helpu Bwrdd Offthalmig Cymru i adolygu materion gallu presennol ym maes offthalmoleg.
- Cymeradwyo canfyddiadau Prosiect Ymgysylltu â'r Gymuned Cwm Taf, sy'n gwerthuso effeithiolrwydd y Ganolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig.
- Paratoi adroddiad cryno a lledaenu canfyddiadau i randdeiliaid allweddol yng Nghymru a'r DU.

Sicrhau y gellir cael gafael yn haws ar wasanaethau colled golwg, gan gynnwys gwasanaethau golwg gwan, ac y caiff gwasanaethau mwy integredig eu datblygu sy'n darparu llwybrau di-dor drwy'r sector iechyd, gofal cymdeithasol, preifat a'r sector gwirfoddol

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod pawb sydd â'r hawl i gael eu hardystio'n unigolion â nam ar eu golwg yn cael eu hardystio.
- Gweithio gyda fferyllwyr er mwyn adolygu i ba raddau y glynir wrth feddyginiaeth glawcoma gan gynnwys mewn cartrefi gofal.
- Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at wasanaethau cymdeithasol o'r gwasanaethau llygaid mewn ysbyty lle byddai'r unigolyn yn cael budd o asesiad gan swyddog adsefydlu a, lle y bo'n briodol, raglen adsefydlu.
- Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at Wasanaeth Golwg Gwan Cymru (LVSW) a'r trydydd sector o'r gwasanaethau llygaid mewn ysbyty.
- Hyrwyddo Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru a chynyddu nifer y bobl sy'n ei ddefnyddio.
- Darparu hyfforddiant amlddisgyblaethol ar gyfer ymarferwyr Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, gweithwyr adsefydlu, gweithwyr cymdeithasol a staff y sector gwirfoddol mewn llwybrau atgyfeirio.
- Gweithio gyda Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru er mwyn sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at wasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.
- Gwella atgyfeiriadau rhwng Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.
- Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau bod y rhai â nam ar eu synhwyrau sy'n byw mewn gofal preswyl yn cael eu nodi a'u cefnogi.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, Strategaeth Golwg y DU, VISION 2020 a phartneriaid perthnasol ym maes gofal llygaid yng Nghymru er mwyn cynnal cyfres o weithdai a arweinir gan gyfoedion ar gyfer offthalmolegwyr a staff clinig llygaid, yn nodi manteision ardystio a chofrestru.
- Bydd RNIB Cymru yn paratoi pecyn gwybodaeth ar y cyd â gwasanaethau trydydd sector Fforwm Golwg Cymru er mwyn gwella atgyfeiriadau o optometreg i'r trydydd sector.

Sicrhau bod gwybodaeth ddibynadwy, hygyrch a pherthnasol am gyflyrau'r llygaid, gofal llygaid, gwasanaethau colled golwg, rhwydweithiau cymorth a hawliau cyfreithiol ar gael, ac y gellir cael gafael arni'n hawdd

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Parhau i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu deunyddiau ar gyflyrau llygaid penodol mewn fformatau sy'n addas i bobl ag anableddau dysgu.
- Mae Sefydliad y Deillion Caerdydd ac RNIB Cymru yn cefnogi 5,489 o bobl drwy eu gwasanaeth cyngor, gwybodaeth a chyfeirio.
- Bwydo i mewn i grwpiau gweithredu byrddau iechyd a chasglu profiadau cleifion o Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau â Chyfathrebu â Hwy yn y GIG.
- Paratoi a hyrwyddo taflen wybodaeth ddwyieithog i deuluoedd â phlant ddall ac â golwg rhannol, er mwyn gwella eu hyder a'u hannibyniaeth i'r eithaf a'u helpu i gael gafael ar yr amrywiaeth o wasanaethau statudol a gwasanaethau eraill y gall fod eu hangen.
- Llunio gwybodaeth i rieni am newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth Anghenion Addysgol Arbennig.
- Cyfrannu at ddatblygu ail flwyddyn prosiect cynhwysiant nam ar y synhwyrau Action on Hearing Loss Cymru, gan ymgysylltu â'r sectorau iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol i greu pecyn cymorth synhwyraidd rhithwir a fydd ar gael i bob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru.
- Cyfrannu at ddatblygu canllawiau arfer da ar hygyrchedd gwybodaeth awdurdodau lleol.

Sicrhau bod cymorth emosiynol yn rhan integredig o wasanaethau gofal llygaid a cholled golwg

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn darparu gwasanaeth Swyddog Cyswllt Clinig y Llygaid a ddarperir drwy RNIB, Sefydliad y Deillion Caerdydd, Sight Support a byrddau iechyd.
- Monitro'r broses o sefydlu'r gwasanaeth Swyddog Cyswllt Clinig y Llygaid cymunedol ym Mhowys, a gaiff ei ddarparu o fis Ebrill 2015.
- Gweithio gyda Grŵp Gwasanaethau Golwg Gwan Cymru i baratoi llyfryn ar wasanaethau i'r rhai sydd â nam ar eu synhwyrau.
- Llunio adroddiad ar fanteision gwasanaethau cymorth ffôn i Roundup. Annog gwirfoddolwyr i gefnogi'r gwasanaethau hyn.

Sicrhau y caiff triniaethau a gwasanaethau cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth eu datblygu yn seiliedig ar ymchwil gadarn er mwyn gwella canlyniadau a sicrhau gwerth gwell am arian

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod proses dryloyw ar waith ar gyfer ystyried a chymhwyso canllawiau NICE sy'n cynnwys offthalmolegwyr a chleifion.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Casglu data ar gyfer gwaith ymchwil academaidd ar effeithiolrwydd gwasanaethau adsefydlu i bobl sy'n colli eu golwg.
- RNIB i barhau i goladu adroddiadau tystiolaeth chwarterol ar wasanaethau Swyddog Cyswllt Clinig y Llygaid RNIB Cymru ar gyfer byrddau iechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- Dechrau gwerthusiad RNIB o Online Today a chasglu tystiolaeth ar effaith cynhwysiant/allgáu digidol ar bobl ddall ac â golwg rhannol.

Sicrhau bod gwasanaeth sefydlu neu adsefydlu ar gael cyn gynted ag y bo'i angen a'i fod yn adlewyrchu anghenion yr unigolyn, yn meithrin hyder a sgiliau a bod yr unigolyn (a/neu ei ofalwr) yn cytuno arno

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at wasanaethau cymdeithasol o'r gwasanaethau llygaid mewn ysbyty lle byddai'r unigolyn yn cael budd o asesiad gan swyddog adsefydlu a, lle y bo'n briodol, raglen adsefydlu.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Parhau i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu rheoliadau cymhwysedd, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), gan gynhyrchu briffiadau ar gyfer cyfarfodydd ag Aelodau'r Cynulliad (ACau) yn ôl yr angen yn ystod y weithdrefn uwchgadarnhaol.
- Darparu hyfforddiant ar gyfer meithrin sgiliau byw'n annibynnol a magu hyder i 300 o bobl.

Sicrhau y caiff asesiadau amserol eu cynnal, sy'n ystyried pob agwedd ar fywyd unigolyn a'i anghenion cyfathrebu, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag addysg a chyflogaeth

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at wasanaethau cymdeithasol o'r gwasanaethau llygaid mewn ysbyty lle byddai'r unigolyn yn cael budd o asesiad gan swyddog adsefydlu a, lle y bo'n briodol, raglen adsefydlu.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Monitro canlyniad ymgynghoriad cyhoeddus ar reoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) ar gyfer nodi blaenoriaethau pellach a chyfleoedd i ddylanwadu.

Sicrhau dealltwriaeth gynyddol o effaith colled golwg ymhlith ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac addysg a chyflogaeth drwy raglenni hyfforddi a datblygu

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth o golli golwg i weithwyr arbenigol a gweithwyr proffesiynol.
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddarddallineb i dîm o 35 o weithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
- Parhau i gyfrannu at y gwaith o gyflawni prosiect Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth glinigol yng Nghymru.
- Cyfarfod â penaethiaid y Ganolfan Byd Gwaith ledled Cymru i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl sy'n colli eu golwg er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion pobl sy'n colli eu golwg a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt.

Sicrhau y caiff pobl sy'n colli eu golwg a'u teulu a'u gofalwyr eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu, cynllunio a darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl sy'n colli eu golwg

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru:

- Datblygu a systemeiddio'r defnydd o fesurau canlyniadau a phrofiadau cleifion mewn gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Sicrhau bod proses dryloyw ar waith ar gyfer ystyried a chymhwyso canllawiau NICE sy'n cynnwys offthalmolegwyr a chleifion.

- Cefnogi a llywio'r gwaith o weithredu a chyflawni Mesurau Canlyniadau a Nodir gan Gleifion a Mesurau Profiadau a Nodir gan Gleifion mewn gwasanaethau gofal llygaid yng Nghymru.

Canlyniad tri

Cymdeithas y gall pobl sy'n colli eu golwg gyfranogi'n llawn ynddi

O 2014-2018, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- Gwella agweddau, ymwybyddiaeth a chamau gweithredu ym maes addysg a chyflogaeth ac o fewn gwasanaethau eraill.
- Sicrhau y gall plant a phobl ifanc sy'n colli eu golwg gymryd eu lle mewn cymdeithas.
- Gwella cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb.

Canlyniad tri: cyflawniadau allweddol ar gyfer 2014/15

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymwybodol bod angen iddynt fod yn hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg

Partner Arweiniol: RNIB Cymru

Nod: Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus, fel gwasanaethau iechyd, tai a'r cyngor, yn gwbl hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg.

Amcan: Gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru er mwyn sicrhau y caiff hygyrchedd i bobl sy'n colli eu golwg ei gynnwys yn ei adolygiad o ddarpariaeth cartrefi gofal.

Cyflawniad allweddol:
Cyhoeddwyd adolygiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar ofal preswyl ym mis Tachwedd 2014. Roedd cyfeiriadau helaeth at golli golwg drwy gydol y ddogfen a fydd yn sicrhau bod cartrefi gofal ledled Cymru yn ymwybodol o effaith colled golwg ar eu preswylwyr a sut y dylid sicrhau bod cartrefi gofal yn gwbl hygyrch.

Hygyrchedd gwasanaethau bws

Partner Arweiniol: Guide Dogs Cymru

Nod: Sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn gwbl hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg, gan gynnwys cyfleusterau archebu a thocynnau a chyfnewidfeydd trafnidiaeth, yn ogystal â darparu technoleg gwybodaeth amser real fel systemau

gwybodaeth sain/gweledol ar fysiau.

Amcan: Ymgyrchu dros gyflwyno mwy o fysiau â gwasanaeth cyhoeddiadau clywedol ledled Cymru.

Cyflawniad allweddol: Y targed ar gyfer 2014/15 oedd gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu pecyn cymorth newydd ar gyfer awdurdodau lleol, i wella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r pecyn cymorth a ffilm bellach wedi'u cynhyrchu.

Comisiynwyd RNIB Cymru a Guide Dogs Cymru gan Lywodraeth Cymru i ysgrifennu "Dewch gyda ni", sy'n cynnwys canllawiau i gomisiynwyr gwasanaethau a chwmnïau bysiau ar sut i ddiwallu anghenion pobl ddall ac â golwg rhannol pan fyddant yn teithio ar fysiau.

Ar 15 Ionawr 2015, lansiodd Gweinidog Trafnidiaeth Cymru, Edwina Hart, y canllaw newydd, gyda'r nod o wella'r profiad o deithio ar fysiau i bobl sy'n colli eu golwg yng Nghymru.

Roedd y Gweinidog yn awyddus i sicrhau bod y pecyn cymorth a'r egwyddorion yn rhan o'r polisi trafnidiaeth presennol a'r polisi trafnidiaeth newydd ac mae RNIB Cymru wedi sicrhau eu bod wedi'u cynnwys yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae mwy o waith i'w wneud nawr i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn fwyfwy hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i
rnib.org.uk/wales-cymru/news/get-board

Cynhadledd Strategaeth Golwg Cymru

Partner Arweiniol: Guide Dogs Cymru

Nod: Sicrhau bod pobl sy'n colli eu golwg yn gallu symud o gwmpas yn rhydd, yn ddiogel ac yn annibynnol, drwy weithredu egwyddorion dylunio cynhwysol a thrwy gynnwys pobl sy'n colli eu golwg a sefydliadau ym maes colled golwg ar gam cychwynnol datblygiadau newydd.

Amcan: Gweithio gyda phenseiri a dylunwyr trefol er mwyn codi ymwybyddiaeth o ofynion mynediad pobl ddall ac â golwg rhannol.

Cyflawniad allweddol: Mae cynhadledd flynyddol Strategaeth Golwg Cymru bellach wedi'i threfnu ar gyfer mis Mehefin 2015 a bydd yn mynd i'r afael yn benodol â'r amgylchedd adeiledig a gwaith dylunio cynhwysol. Bydd y gynhadledd yn dwyn ynghyd swyddogion awdurdodau lleol dethol sy'n arwain gwaith ym maes cydraddoldeb, yr amgylchedd ac adfywio, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ym maes trafnidiaeth a chynllunio.

I gael rhagor o wybodaeth am y gynhadledd, ewch i
ukvisionstrategy.org.uk/get-involved-ways-get-involved-across-uk/wales

Rhaglen Cipolwg ar y Dyfodol

Partner Arweiniol: RNIB Cymru and Guide Dogs Cymru

Nod: Sicrhau y gall pob person dall a phob person sydd â golwg rhannol gael gafael ar wasanaethau i'w helpu i weithio, neu gadw ei swydd ar ôl colli ei olwg. Dylai hyn gynnwys cymorth i gyflogwyr a hyrwyddo cynllun Mynediad at Waith a chynlluniau cyfatebol sy'n helpu i gyflenwi technoleg gynorthwyol a systemau cymorth.

Amcan: Sicrhau cyfleoedd profiad gwaith â chymorth i bobl ifanc ddall ac â golwg rhannol.

Cyflawniad allweddol: Mae Cipolwg ar y Dyfodol, prosiect a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr o dan raglen Dyfodol Disglair, yn helpu pobl ifanc rhwng 14 a 25 oed ledled Cymru sy'n ddall neu â golwg rhannol i gael profiad gwaith er mwyn gwella eu sgiliau cyflogadwyedd.

Mae cyflogwyr bach a mawr fel Heddlu De Cymru, Airbus UK, Techniquest, DVLA, y Ganolfan Hygyrchedd Digidol, Tŷ Newydd a Laguna Health Spa wedi cymryd rhan yn y rhaglen.

Mae amrywiaeth o bartneriaid yn cydweithio ledled Cymru, gan gyfrannu eu sgiliau arbenigol er mwyn sicrhau bod y lleoliad gwaith yn werth chweil ac yn llwyddiannus i'r person ifanc a'r cyflogwr.

Yn ystod 2014/15, cafodd 12 o bobl yng Nghymru gyfle i fynd ar brofiad gwaith, gyda thri ohonynt yn aros gyda'r cyflogwr mewn cyflogaeth â thâl. Mae hyn wedi rhagori ar y targed gwreiddiol a bennwyd gan y prosiect, gan ddangos y lefel uchel o alw am y math hwn o wasanaeth gwerthfawr.

Hyd yma, gyda chymorth sylweddol a phwyslais ar sicrhau bod y person ifanc cywir yn cael ei baru â'r lleoliad cywir, mae pob lleoliad wedi bod yn llwyddiannus. Nid oes un cyfranogwr wedi rhoi'r gorau i'r cynllun nac wedi gofyn am leoliad newydd.

Canlyniad tri: camau allweddol â blaenoriaeth ar gyfer 2015/16

Sicrhau y caiff pobl sy'n colli eu golwg yr un cyfle i gael gafael ar addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gan gynnwys hyfforddiant a deunyddiau eraill mewn fformatau hygyrch

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Paratoi taflen wybodaeth ddwyieithog i rieni a'i hyrwyddo'n eang. Paratoi taflen wybodaeth i rieni ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth AAA.
- Cynnal ymgynghoriad i ystyried a all llwybr VISION 2020 UK i Blant a Phobl Ifanc gael ei fabwysiadu fel y llwybr safonol i Gymru.
- Diweddaru'r Llwybr Colled golwg drwy ailymgynnull y gweithgor a chynnwys strategaethau newydd, llwybr VISION 2020 UK i Blant a Phobl Ifanc.
- Parhau i ymgyrchu dros gynnwys Llwybr Colled golwg mewn Cod Ymarfer newydd ar Ddeddfwriaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).
- Parhau i fonitro'r gwaith o ddarparu Cymorth Athrawon Cymwysedig Plant â Nam ar eu Golwg (QTVI) yng Nghymru. Cyflwyno adroddiad i Grŵp Cynhwysiant y Cyfarwyddwyr Addysg Cynorthwyol yng Nghymru.
- Paratoi adroddiad ymgyrch ar y gwasanaethau sefydlu a ddarperir yng Nghymru.
- Parhau i gefnogi Coleg Castell-nedd Port Talbot i gyflawni'r prosiect Mwy na Golwg a darparu gwasanaethau o ansawdd i ddysgwyr dall ac â golwg rhannol drwy Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot.
- Cefnogi grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth AAA newydd yng Nghymru.
- Datblygu a darparu gwasanaeth sefydlu gwerth ychwanegol er mwyn gwella a chefnogi darpariaeth statudol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd prosiect ymchwil ffurfiol yn dechrau ym mis Mai 2015 gydag adroddiad ar ganfyddiadau'r ymchwil yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi.

Sicrhau bod llwybr pontio clir a di-dor o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Rhoi cymorth un-i-un i bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed sy'n pontio o ysgol i addysg bellach, addysg uwch a chyflogaeth, yn ôl yr angen.

- Cyhoeddi canllaw ar-lein i bobl ifanc a'u teuluoedd ar y cymorth statudol ac anstatudol sydd ar gael wrth bontio i wasanaethau oedolion. Dyfeisio llwybr o VISION 2020 UK i Blant a Phobl Ifanc i lwybr Colled golwg i Oedolion Strategaeth Golwg y DU a chyhoeddi canllaw penodol i Gymru sy'n adeiladu ar y gwaith o fabwysiadu'r llwybr i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru.
- Gweithio gyda phobl ifanc a gwasanaethau statudol er mwyn sicrhau bod gwaith cynllunio cyfnod pontio yn ystyried anghenion a dyheadau'r unigolyn. Diwygio dogfennau canllaw a rhoi cymorth parhaus i unigolion, yn ôl yr angen.

Sicrhau y gall pob person dall a phob person sydd â golwg rhannol gael gafael ar wasanaethau i'w helpu i weithio, neu gadw ei swydd ar ôl colli ei olwg

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Parhau i gynnal gwasanaeth cyflogaeth arbenigol sy'n cynnig clybiau swyddi a chymorth un-i-un dros y ffôn.
- Monitro canlyniadau gwasanaeth cyflogaeth â chymorth dros y ffôn.
- Cynnal tri gweithdy undydd i blant a phobl ifanc ar faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth drwy brosiect Cipolwg ar y Dyfodol ledled Cymru.
- Ymgysylltu â Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth o anghenion pobl ifanc sy'n colli eu golwg mewn perthynas â chyfnodau pontio.
- Parhau â gwaith ymgysylltu â chyflogwyr gyda chwmnïau ledled Cymru.
- Parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect Cipolwg ar y Dyfodol.
- Rhoi hyfforddiant a chymorth symudedd er mwyn galluogi pobl ddall ac â golwg rhannol i fynd i'r gwaith ac oddi yno, drwy brosiect Cipolwg ar y Dyfodol.
- Cynnal cyfarfod o'r grŵp monitro Mynediad at Waith er mwyn sefydlu targedau i wella safonau asesu a chymorth i bobl sy'n colli eu golwg mewn cyflogaeth.

Sicrhau y gall pobl ddall ac â golwg rhannol hawlio'r holl fudd-daliadau lles y mae ganddynt yr hawl i'w cael

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod RNIB Cymru a Sight Support yn rhoi cyngor a gwybodaeth i bobl ddall ac â golwg rhannol a'u helpu i gael gafael ar fudd-daliadau lles ledled Cymru.
- Parhau i fod yn aelod o Fforwm Gwasanaethau Cynghori Annibynnol Llywodraeth Cymru, er mwyn codi materion sy'n ymwneud â cholled golwg.

- Lansio'r porth ar-lein "Perspectif" a fydd yn rhoi gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio ym mis Mai 2015.

Sicrhau y gall pobl sy'n colli eu golwg gael gafael ar wybodaeth yn eu dewis fformat

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Parhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl sy'n colli eu golwg o'u hawl i gael gwybodaeth hygyrch o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy gylchgrawn Roundup Cyngor Cymru i'r Deillion, a gweithio gydag unigolion, grwpiau a chymdeithasau.
- Lobïo cynghorau i drafod yr angen am wybodaeth hygyrch a sicrhau ei bod yn cwmpasu'r holl wasanaethau a gynigir gan gynghorau a'u darparwyr contract. Cyngor Cymru i'r Deillion i goladu ymatebion o adrannau awdurdodau lleol.
- Cysylltu â phenaethiaid gwasanaethau ac amlygu enghreifftiau o arfer da o ran rhannu gofynion dinasyddion am wybodaeth hygyrch ar draws pob adran, nid o fewn gwasanaethau cymdeithasol yn unig.

Sicrhau bod hyfforddiant i ddefnyddio technolegau newydd ar gael, a'i fod yn fforddiadwy ac yn barhaus

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Darparu gwasanaethau ledled Cymru drwy RNIB Cymru a Sight Cymru er mwyn helpu pobl ddall ac â golwg rhannol i fynd ar-lein a defnyddio technoleg ddigidol.
- Parhau i gynnig y cyfle i bob aelod o DeafBlind Cymru ddysgu am dechnoleg llechen newydd; cynnal sgyrsiau ar dechnoleg hygyrch i bob grŵp cymorth cymheiriaid a chymdeithasol DeafBlind Cymru; rhoi cymorth cynhwysiant digidol un-i-un i aelodau; llunio cyfres o flogiau ar ddefnyddio technoleg newydd.

Sicrhau bod gweithgareddau hamdden yn gwbl hygyrch i bawb sy'n colli eu golwg, gan gynnwys chwaraeon, ymarfer corff, hobïau a'r celfyddydau gweledol a pherfformio

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Parhau i weithio gyda Chwaraeon Anabledd Cymru, Croeso Cymru ac Anabledd Cymru er mwyn ystyried cwmpas prosiect i geisio gwella hygyrchedd lleoliadau hamdden, chwaraeon a'r celfyddydau.
- Gweithio gyda Chwaraeon Anabledd Cymru er mwyn ystyried y rhwystrau a wynebir gan bobl sy'n colli eu golwg sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Caiff cerrig milltir eu pennu mewn cyfarfod ym mis Ebrill 2015.

- Gwneud gwaith dilynol mewn perthynas â'r arolwg o'r Celfyddydau yng Nghymru a Nam ar y Golwg yn 2002, a mapio cynnydd.

Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus, fel gwasanaethau iechyd, tai a'r cyngor, yn gwbl hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod nam ar y synhwyrau yn cael ei gynnwys yn arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a bod arolygwyr yn cael hyfforddiant yn y maes.
- Cefnogi a monitro'r broses o weithredu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn y GIG drwy fynychu grwpiau gweithredu byrddau iechyd a rhoi mewnbwn iddynt.
- Caiff adroddiad ar wybodaeth hygyrch mewn awdurdodau lleol ei gyhoeddi ym mis Mai 2015. Caiff yr adroddiad hwn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar gynghorau o ran yr angen am wybodaeth hygyrch a sicrhau ei bod yn cwmpasu'r holl wasanaethau a gynigir gan gynghorau a'u darparwyr contract.
- Hyrwyddo arfer gorau mewn awdurdodau lleol o rannu cofrestrau cyfryngau dewisol dinasyddion unigol ar draws pob adran, nid o fewn gwasanaethau cymdeithasol yn unig.
- Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol a monitro a dylanwadu ar y ffordd y caiff ei weithredu. Yn dilyn cyflwyno Adroddiad Fforwm Golwg Cymru ar yr Amgylchedd i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, monitro effaith llythyr y Gweinidog at bob awdurdod lleol yn ei atgoffa o'i ddyletswydd i gynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ac ymgysylltu â phobl anabl wrth gynllunio newidiadau i dir y cyhoedd.

Sicrhau bod pobl sy'n colli eu golwg yn gallu symud o gwmpas yn rhydd, yn ddiogel ac yn annibynnol

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth gynllunio newydd yng Nghymru, er mwyn cynyddu ei photensial i wella hygyrchedd i bobl ddall ac â golwg rhannol.
- Datblygu astudiaethau achos o ymgysylltiad cadarnhaol rhwng pobl ddall ac â golwg rhannol ac awdurdodau lleol a'u rhannu â Llywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu safonau 'Visibly Better' RNIB Cymru ar gyfer Tai Gwarchod a Thai Gofal Ychwanegol ac yn y sector gofal iechyd.
- Gweithio gyda'r Access Association yng Nghymru er mwyn hyrwyddo'r gwaith o rannu arfer gorau ym maes dylunio cynhwysol. Bydd Guide Dogs yn gwneud

gwaith dilynol ar adroddiad a roddir i Lywodraeth Cymru.

- Ystyried mentrau i egluro Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a datblygu systemau i gynnwys pobl ddall ac â golwg rhannol mewn ymgynghoriadau lleol.
- Parhau i ddatblygu cydberthnasau â swyddogion mynediad a chydraddoldeb awdurdodau lleol ac ethol aelodau sy'n hyrwyddwyr cydraddoldeb er mwyn egluro Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.
- Parhau i ddarparu hyfforddiant rhwydwaith cefnogwyr ymgyrchoedd pan ofynnir amdano, gan helpu pobl ddall ac â golwg rhannol i weithio gyda Grwpiau Mynediad lleol. Gwerthuso'r adnoddau a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar grwpiau yn y dyfodol. Gweithio ar raglen hyfforddi newydd yn barod i'w gweithredu yn 2016/17.
- Ymgysylltu â phenseiri a dylunwyr trefol er mwyn codi ymwybyddiaeth o ofynion mynediad pobl ddall ac â golwg rhannol, drwy gynhadledd Strategaeth Golwg Cymru ym mis Mehefin 2015. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, thema'r gynhadledd fydd dylunio cynhwysol.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys pobl ddall ac â golwg rhannol mewn datblygiadau newydd, a bod eu dulliau ymgynghori yn hygyrch.
- Helpu pobl ddall ac â golwg rhannol i herio gwaith dylunio anghynhwysol a datblygu dulliau effeithiol o gydweithio â swyddogion a chynghorwyr awdurdodau lleol perthnasol.

Sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn gwbl hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg, gan gynnwys cyfleusterau archebu a thocynnau a chyfnewidfeydd trafnidiaeth, yn ogystal â darparu technoleg gwybodaeth amser real fel systemau gwybodaeth sain/gweledol ar fysiau

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol:

- Parhau i hyrwyddo arfer gorau ymhlith gweithredwyr bysiau a chynllunio gweithgareddau i roi rhagor o gymorth i'r cyhoedd.
- Datblygu cynllun gweithredu er mwyn gwella hyfforddiant i yrwyr bysiau a chefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol i orfodi rheoliadau'r UE ar hyfforddiant gyrwyr bysiau.
- Parhau i ddylanwadu ar Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysiau Llywodraeth Cymru a cheisio cymorth ganddo.
- Monitro effaith y canllaw Dewch gyda Ni drwy arolwg teithiwr cudd.
- Cefnogi ymgyrch genedlaethol i gydnabod y risgiau i ddiogelwch sy'n gysylltiedig â cherbydau tawel wrth ddatblygu cerbydau hybrid.

Rhestr talfyriadau

AAA
Anghenion Addysgol Arbennig

AGGCC
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

DRSSW
Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopathi Diabetig Cymru.

ECLO
Swyddog Cyswllt Clinig y Llygaid (staff sy'n helpu cleifion clinig y llygaid i gael gafael ar y cymorth emosiynol ac ymarferol sydd eu hangen arnynt ar ôl iddynt golli eu golwg)

EHEW
Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru (archwiliad estynedig o'r llygaid a ddarperir gan optometryddion i'r rhai sy'n wynebu risg uwch o golli eu golwg)

FOO
Ffocws ar Offthalmoleg (ffrwd gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a ddatblygodd lwybrau clinigol newydd ar gyfer cyflyrau penodol y llygaid)

GOS
Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (mae optometryddion yn darparu profion golwg am ddim i blant, pobl hŷn a'r rhai ar incwm isel o dan y contract hwn)

HES
Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty

LVSW
Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru (gwasanaeth a ddarperir gan optometryddion er mwyn rhoi cyngor i bobl â nam ar eu golwg ar sut i reoli eu cyflwr llygaid a darparu cymhorthion bywyd beunyddiol addas fel goleuadau a chwyddwydrau)

NICE
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

ODTC
Canolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig

QTVI
Athrawon Cymwysedig Plant â Nam ar eu Golwg

RCGP
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu

WECS
Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru (term mantell ar gyfer Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopathi Diabetig Cymru, Cynllun Atgyfeirio i Gael Gofal Llygaid mewn Achosion Aciwt ac Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru. Caiff yr archwiliadau a'r gwasanaethau gofal llygaid hyn eu hariannu gan Lywodraeth Cymru)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ysgrifenyddiaeth Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru
RNIB Cymru
Cwrt Jones
Stryd Womanby
Caerdydd CF10 1BR

Ffôn: 029 2082 8500
E-bost: walesvisionstrategy@rnib.org.uk